WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o Atal a Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – **Cyngor Dinas Casnewydd**


Blwyddyn archwilio: 2019-2020

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1701A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Dinas Casnewydd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Martin Gibson a Gareth Jones
dan gyfarwyddyd Non Jenkins.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, er nad ydynt eto wedi nodi gweledigaeth hirdymor o ran sut y byddant yn mynd i'r afael â'i achosion sylfaenol a oleuwyd gan farn y cyhoedd.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor yn rhannu uchelgais i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ond gall wella sut y mae'n cynllunio ac yn defnyddio adnoddau ar gyfer y tymor hwy 6

Mae'r Cyngor yn ceisio dull mwy ataliol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ond mae angen iddo wella'i ddealltwriaeth am ei achosion sylfaenol a'r modd y mae'n mynd i'r afael â hwy 7

Nid yw'r Cyngor a'i bartneriaid wedi cysoni eu cynlluniau sefydliadol yn llawn eto er mwyn dwyn y budd mwyaf i'r gymuned a gwireddu eu huchelgais ar y cyd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol 8

Gall y Cyngor ddangos gwerth cydweithio'n eang i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ond dylai sicrhau bod data a deilliannau disgwyliedig yn cael eu rhannu gyda sefydliadau partner a'r cyhoedd 9

Ceir rhai enghreifftiau o'r Cyngor yn ceisio barn y cyhoedd ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn ymateb iddi, er bod y Cyngor yn cydnabod y gallai gryfhau ei ddull o gynnwys pobl 10

Rhan Dau: Ymateb Cyngor Dinas Casnewydd 11

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 22

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

7 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

8 Pedwerydd Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd yng Nghynllun Corfforaethol 2017-22 yw 'creu cymunedau cydlynus a chynaliadwy' ac un o'i gamau i gyflawni'r amcan hwnnw yw 'Atal a mynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar y trigolion a'r gymuned fusnes gan gynnwys ymddygiad gwael cyffredinol, niwsans sŵn, tipio anghyfreithlon, gwerthu alcohol yn anghyfreithlon i blant a throseddau ar drothwy'r drws'. Fe wnaethom archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

9 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol (Arddangosyn 1). Fe ddatblygon ni rai dangosyddion o'r ffyrdd hyn o weithio i helpu i oleuo ein gwaith (Atodiad 1):

Arddangosyn 1: Y ‘pum ffordd o weithio’

Mae’r tabl isod yn nodi’r ‘pum ffordd o weithio’ a ddiffinnir yn nogfen ‘Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol’[1] Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad: **Mae’r Cyngor a’i bartneriaid yn ymrwymedig i fynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, er nad ydynt eto wedi nodi gweledigaeth hirdymor o ran sut y byddant yn mynd i’r afael â’i achosion sylfaenol a oleuwyd gan farn y cyhoedd**.

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae'r Cygor yn rhannu uchelgais i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ond gallai wella sut y mae'n cynllunio ac yn defnyddio adnoddau ar gyfer y tymor hwy

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

11 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

#### Yr hyn a ganfuom

12 Canfuom y cryfder canlynol:

- Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi eu hamcanion cyffredin i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n arwain at ymrwymiad i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

13 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun gweithredu hirdymor eglur i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Gweithio gyda sefydliadau eraill i geisio ac ehangu'r setiau data a ddefnyddir i ddeall heriau yn awr ac yn y dyfodol a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Nid yw'r Cyngor wedi diffinio'i ddeilliannau bwriadedig mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i bartneriaid eto, sy'n ystyried barn partneriaid a'r cyhoedd; ac
- Ystyried cydweithio gyda sefydliadau partner i adolygu sut y gall yr holl gyllid sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gael ei ddefnyddio i sicrhau dull hirdymor.

## Mae'r Cyngor yn ceisio dull mwy ataliol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ond mae angen iddo wella'i ddealltwriaeth am ei achosion sylfaenol a'r modd y mae'n mynd i'r afael â hwy

### Yr hyn y chwilion ni amdano

14 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn dechrau symud adnoddau i ddefnyddio dull mwy ataliol mewn rhai meysydd gwasanaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn wedi cynnwys bod y tîm atal yn canolbwyntio ar deuluoedd sy'n wynebu risg o fod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol; ac
- Mae Ymgyrch Bang[2], er ei fod yn ymyriad ataliol am amser penodol, wedi dangos gostyngiad amlwg mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

16 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Ar hyn o bryd mae diffyg deilliannau gwasanaeth tymor hwy pendant yn cyfyngu ar y gallu i gynllunio ac asesu gwaith atal. Byddai gwella dealltwriaeth trwy ddata a rennir a chasglu gwybodaeth am y gymuned yn gallu cryfhau dulliau ataliol y Cyngor a phartneriaid o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; a
- Gallai'r Cyngor ystyried cryfhau setiau data ansoddol a meintiol i helpu i ddylunio, monitro a gwerthuso gwasanaethau ataliol effeithiol dros y tymor byr a hwy. Gall hyn wella dealltwriaeth y Cyngor am dueddiadau ac achosion sylfaenol ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhoi cymorth i gynllunio dulliau newydd.

[2] Menter genedlaethol sy'n cael ei rhedeg gan y 4 heddlu yng Nghymru yw Ymgyrch BANG (Be a Nice Guy). Mae'n codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol yn ystod cyfnod tymhorol Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt ac yn helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau

## Nid yw'r Cyngor a'i bartneriaid wedi cysoni eu cynlluniau sefydliadol yn llawn eto er mwyn dwyn y budd mwyaf i'r gymuned a gwireddu eu huchelgais ar y cyd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

17 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

### Yr hyn a ganfuom

18 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Ceir ymgais ac uchelgais amlwg i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws uwch arweinwyr y Cyngor a sefydliadau partner yn y BGC; ac
- Mae amcanion y Cyngor yn gyson ag amcan cyffredin y BGC i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

19 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Nid yw'r Cyngor wedi mynd ati eto i werthuso gyda'i bartneriaid sut y mae cynlluniau strategol a gweithredol pob un o sefydliadau'r BGC sy'n cyflawni gweithgareddau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cyfrannu at gyflawni eu hamcanion llesiant hwy eu hunain ac yn gwella rhai eu partneriaid; ac
- Mae cyfleoedd i ddangos sut y gall y gweithgareddau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a deilliannau o ganlyniad i hynny gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.

## Gall y Cyngor ddangos gwerth cydweithio'n eang i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ond dylai sicrhau bod data a deilliannau disgwyliedig yn cael eu rhannu gyda sefydliadau partner a'r cyhoedd

### Yr hyn y chwilion ni amdano

20 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae gan y Cyngor berthnasoedd gweithio da gyda phartneriaid yn y BGC i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae wedi mynd ati ymhellach i geisio ennyn ymgysylltiad y sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu'r effaith i'r eithaf;
- Mae'r Cyngor yn dechrau datblygu hybiau lleol mewn cydweithrediad gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill a all gyfrannu at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mae cydweithio gydag asiantaethau eraill mewn perthynas ag Ymgyrch Bang wedi cyfrannu at ostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

22 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Ystyried pa ddeilliannau y mae'r Cyngor a phartneriaid yn ceisio'u cyflawni a datblygu setiau data i fonitro ac adrodd ar y deilliannau hynny dros y tymor byr, canolig a hir;
- Byddai gosod targedau mwy manwl sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau i gwmpasu'r ystod o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu helpu'r Cyngor i ddwyn yr elfennau hynny ynghyd wedyn i fod â golwg gyffredinol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghasnewydd;
- Estyn yr ystyriaeth i'r modd y gallai holl wasanaethau'r Cyngor gyfrannu at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; ac
- Er gwaethaf y perthnasoedd gweithio effeithiol, mae cyfleoedd pellach i'r Cyngor ystyried sut i estyn y perthnasoedd gweithio gan rannu data'n effeithiol o fewn y Cyngor a chyda sefydliadau partner perthnasol.

## Ceir rhai enghreifftiau o’r Cyngor yn ceisio barn y cyhoedd ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn ymateb iddi, er bod y Cyngor yn cydnabod y gallai gryfhau ei ddull o gynnwys pobl

### Yr hyn y chwilion ni amdano

23 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo’u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni’r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni’r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni’r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella’i ddull o gynnwys.

### Yr hyn a ganfuom

24 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae’r Cyngor yn datblygu rhai dulliau ymgysylltu dychmygus ac arloesol megis cynnal arolygon ymhlith y cyhoedd trwy gyswllt Wi-Fi am ddim ar fysiau; ac
- Mae’n dangos parodrwydd i addasu ac estyn dyluniad gwasanaethau i ymgorffori’r negeseuon a glywyd.

25 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Parhau i gryfhau sianelau cyfathrebu dwyffordd i’r holl gymunedau i sicrhau bod eu barn ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu cael ei chlywed a goleuo gweithgareddau’r Cyngor a phartneriaid; a
- Chofio cyfyngiadau ymgysylltiad presennol y Cyngor â’r cyhoedd a mynd ati’n barhaus i geisio diweddaru ei wybodaeth am farn y cyhoedd mewn ffordd gymesur i oleuo’r ddealltwriaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

26 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Hydref 2019 yr oedd swyddogion o'r tîm polisi a phartneriaeth, safonau masnachu, gwasanaethau plant, diogelu'r cyhoedd, iechyd yr amgylchedd ac adfywio yn ogystal â chynrychiolwyr Heddlu Gwent yn bresennol ynddo. Yn y gweithdy hwn fe ddechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a myfyrio ymhellach ar ein canfyddiadau mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

27 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u nodi yn ein canfyddiadau.

## Hirdymor

Pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.

**Cryfderau:**

- Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi eu hamcanion cyffredin i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n arwain at ymrwymiad i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

| Meysydd i'w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| • Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun gweithredu hirdymor eglur i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• Nid yw'r Cyngor wedi diffinio'i ddeilliannau bwriadedig mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i bartneriaid eto, sy'n ystyried barn partneriaid a'r cyhoedd.<br>• Gweithio gyda sefydliadau eraill i geisio ac ehangu'r setiau data a ddefnyddir i ddeall heriau yn awr ac yn y dyfodol a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol. | **Ymateb / Cryfderau Cyngor Dinas Casnewydd**<br>Rydym yn cydnabod bod mynd ati'n effeithiol i wella diogelwch ein cymunedau a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr hirdymor (10 i 20 mlynedd) yn galw am ddull a berchnogir ac a gyflawnir ar y cyd rhwng Cyngor Dinas Casnewydd, ein partneriaid ym mhartneriaeth diogelwch cymunedol Casnewydd Ddiogelach, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r gymuned.<br><br>Ers yr adolygiad, mae'r grŵp thema ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cwblhau ei amodau gorchwyl a strwythur llywodraethu a fydd yn rhoi cymorth i gyflawni cynllun strategol tymor hwy. Mae'r grŵp eisoes wedi datblygu cynllun cyflawni gyda chamau gweithredu dros y tymor byrrach sy'n ataliol ac yn adweithiol i faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ceir gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor, yr Heddlu a phartneriaid eraill i adolygu data ansoddol a meintiol i oleuo ein prosesau penderfynu a'n gwaith i fonitro ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>**Cam Gweithredu 1 – Datganiad Cenhadaeth a Chynllun Gweithredu**<br>Datblygu ac adolygu'r cynllun gweithredu cyfredol i sicrhau bod deilliannau hirdymor yn cael eu cynnwys a'u perchnogi gan yr holl bartneriaid sy'n rhan o | Grŵp Casnewydd Ddiogelach | 31 Rhagfyr 2020 |

| Meysydd i'w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| • Ystyried cydweithio gyda sefydliadau partner i adolygu sut y gall yr holl gyllid sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gael ei ddefnyddio i sicrhau dull hirdymor. | bartneriaeth Casnewydd Ddiogelach a'i his-grwpiau. Dylai hyn ategu amcanion hirdymor Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cymunedau cryf a gwaith atal megis Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a chefnogi cynigion cydweithredol ar gyfer cyllid / mentrau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng partneriaid.<br><br>**<u>Cam Gweithredu 2 – Trefniadau Llywodraethu a Strwythur y Grŵp Thema Ymddygiad Gwrthgymdeithasol</u>**<br>Gweithredu ac adolygu effeithiolrwydd strwythur llywodraethu'r Grŵp Thema ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i grwpiau gweithredol a fydd o gymorth i gyflawni'r cynllun gweithredu hirdymor. | Grŵp Casnewydd Ddiogelach | 31 Mawrth 2021 |

## Atal

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

**Cryfderau:**

- Mae'r Cyngor yn dechrau symud adnoddau i ddefnyddio dull mwy ataliol mewn rhai meysydd gwasanaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn wedi cynnwys bod y tîm atal yn canolbwyntio ar deuluoedd sy'n wynebu risg o fod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol; ac
- Mae Ymgyrch Bang, er ei fod yn ymyriad ataliol am amser penodol, wedi dangos gostyngiad amlwg mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

| Meysydd i'w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| • Ar hyn o bryd mae diffyg deilliannau gwasanaeth tymor hwy pendant yn cyfyngu ar y gallu i gynllunio ac asesu gwaith atal. Byddai gwella dealltwriaeth trwy ddata a rennir a chasglu gwybodaeth am y gymuned yn gallu cryfhau dulliau ataliol y Cyngor a phartneriaid o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. | **<u>Ymateb / Cryfderau Cyngor Dinas Casnewydd</u>**<br>Rydym yn cydnabod bod defnyddio a bod â dealltwriaeth gyffredin am ddata i oleuo penderfyniadau ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol yn hanfodol i alluogi'r Cyngor a'i bartneriaid i newid i ddull mwy rhagweithiol. Mae'r Cyngor a'n partneriaid eisoes yn casglu data i gefnogi prosesau penderfynu. Fodd bynnag, yr her nesaf yw ein bod yn cael dealltwriaeth gyffredin ac yn defnyddio'r data hwn yn fwy effeithiol i gyflawni dulliau o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd â mwy o ffocws ac yn fwy integredig.<br>Yn dilyn yr adolygiad archwilio rydym wedi cytuno i adolygu'r gweithgor data amlasiantaeth cyfredol a sefydlwyd i fwrw golwg ar y data a gesglir gennym ac ystyried sut y gallwn ddefnyddio hwn yn well i ddadansoddi ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled y ddinas. | Grŵp Casnewydd Ddiogelach | 31 Rhagfyr 2020 |
| • Gallai'r Cyngor ystyried cryfhau setiau data ansoddol a meintiol i helpu i ddylunio, monitro a gwerthuso gwasanaethau ataliol | **<u>Cam Gweithredu 3 – Dealltwriaeth gyffredin am ddata</u>**<br>Ailsefydlu'r gweithgor data amlasiantaeth i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin ar draws sefydliadau a grwpiau am ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled | | 31 Rhagfyr 2020 |

| Meysydd i’w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| effeithiol dros y tymor byr a hwy. Gall hyn wella dealltwriaeth y Cyngor am dueddiadau ac achosion sylfaenol ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhoi cymorth i gynllunio dulliau newydd. | Casnewydd. Gan ddefnyddio data ar ymddygiad gwrthgymdeithasol byddwn yn amcanu at ddadansoddi a mapio achosion sylfaenol ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws cymunedau yng Nghasnewydd.<br>**Cam Gweithredu 4 – Rhannu Gwybodaeth trwy’r Grŵp Thema / Grwpiau Gweithredol Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**<br>Trwy weithredu’r Grŵp Thema Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a’i grwpiau gweithredol e.e. Grwpiau Gweithredu Lleol / Grwpiau Datrys Problemau, byddwn yn datblygu mecanweithiau i gyflawni camau gweithredu byrdymor a hirdymor o’r cynllun gweithredu ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd y grwpiau hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i wybodaeth (feintiol ac ansoddol) gael ei rhannu rhwng y grwpiau a’r cymunedau. | Grŵp Casnewydd Ddiogelach | |

## Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

**Cryfderau:**

- Ceir ymgais ac uchelgais amlwg i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws uwch arweinwyr y Cyngor a sefydliadau partner yn y BGC; ac
- Mae amcanion y Cyngor yn gyson ag amcan cyffredin y BGC i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

| Meysydd i'w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| • Nid yw'r Cyngor wedi mynd ati eto i werthuso gyda'i bartneriaid sut y mae cynlluniau strategol a gweithredol pob un o sefydliadau'r BGC sy'n cyflawni gweithgareddau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cyfrannu at gyflawni eu hamcanion llesiant hwy eu hunain ac yn gwella rhai eu partneriaid.<br>• Mae cyfleoedd i ddangos sut y gall y gweithgareddau i | **Ymateb / Cryfderau Cyngor Dinas Casnewydd**<br>Mae symptomau ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i effeithiau'n torri ar draws nifer o weithgareddau rhagweithiol ac adweithiol a gyflawnir gan y Cyngor a'n partneriaid (Rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant / Gwaharddiadau), Cymunedau yn Gyntaf, Gwasanaethau Ieuenctid, Cyfiawnder Ieuenctid, Tai (Cartrefi Dinas Casnewydd), Digartrefedd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a gweithgareddau eraill. Gan ddefnyddio'r gwaith a rhwydweithiau da sy'n bodoli rhwng y BGC, Casnewydd Ddiogelach a grwpiau eraill, byddwn yn amcanu at wella'r modd yr ydym yn integreiddio ac yn cydweithio wrth gyflawn ein cynlluniau yn y dyfodol.<br><br>**Gweler Cam Gweithredu 1 – Datganiad Cenhadaeth a Chynllun Gweithredu** | | |

| Meysydd i’w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| fynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a deilliannau o ganlyniad i hynny gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. | **Gweler Cam Gweithredu 2 – Grwpiau gweithredol ymddygiad gwrthgymdeithasol**<br><br>**Cam Gweithredu 4 – Rhannu Gwybodaeth trwy’r Grŵp Thema / Grwpiau Gweithredol Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**<br><br>**Cam Gweithredu 5 – Cynlluniau Gwasanaethau Cyngor Dinas Casnewydd**<br>Bydd meysydd gwasanaeth yng Nghyngor Dinas Casnewydd sy’n rhan o waith ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymgorffori amcanion a chamau gweithredu allweddol yn eu Cynlluniau Gwasanaeth i ddangos a chefnogi’r broses o gyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. | Tîm Polisi, Partneriaeth a Chynnwys | Mai 2020 |

## Cydweithio

Cydweithio gydag unrhyw un arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

**Cryfderau:**

- Mae gan y Cyngor berthnasoedd gweithio da gyda phartneriaid yn y BGC i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae wedi mynd ati ymhellach i geisio ennyn ymgysylltiad y sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu'r effaith i'r eithaf;
- Mae'r Cyngor yn dechrau datblygu hybiau lleol mewn cydweithrediad gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill a all gyfrannu at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; ac
- Mae cydweithio gydag asiantaethau eraill mewn perthynas ag Ymgyrch Bang wedi cyfrannu at ostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

| Meysydd i'w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| • Ystyried pa ddeilliannau y mae'r Cyngor a phartneriaid yn ceisio'u cyflawni a datblygu setiau data i fonitro ac adrodd ar y deilliannau hynny dros y tymor byr, canolig a hir. | **<u>Ymateb / Cryfderau Cyngor Dinas Casnewydd</u>**<br>Rydym yn croesawu asesiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y rhwydweithiau cydweithredol sydd wedi cael eu hadeiladu rhwng partneriaid y BGC, Heddlu Gwent, a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, preifat a dielw i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled y ddinas. Mae hefyd yn dda gweld bod camau gweithredu / gweithgareddau cydweithredol yn cael eu cydnabod am eu gallu i leihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y ddinas. Yn dilyn yr adolygiad archwilio rydym wedi cwblhau strwythur llywodraethu ar gyfer cyflawni camau gweithredu ac i edrych ar y deilliannau dros y tymor byr a hir.<br><br>**<u>Gweler Cam Gweithredu 1 – Datganiad Cenhadaeth a Chynllun Gweithredu</u>** | | |
| • Byddai gosod targedau mwy manwl sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau i gwmpasu'r ystod o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu | | | |

| Meysydd i'w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| helpu'r Cyngor i ddwyn yr elfennau hynny ynghyd wedyn i fod â golwg gyffredinol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghasnewydd. | **Gweler Cam Gweithredu 2 – Grwpiau gweithredol ymddygiad gwrthgymdeithasol**<br><br>**Gweler Cam Gweithredu 3 – Dealltwriaeth gyffredin am ddata**<br><br>**Gweler Cam Gweithredu 4 – Rhannu Gwybodaeth trwy'r Grŵp Thema / Grwpiau Gweithredol Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.**<br><br>**Gweler Cam Gweithredu 5 – Cynlluniau Gwasanaeth Cyngor Dinas Casnewydd** | | |
| • Estyn yr ystyriaeth i'r modd y gallai holl wasanaethau'r Cyngor gyfrannu at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. | | | |
| • Er gwaethaf y perthnasoedd gweithio effeithiol, mae cyfleoedd pellach i'r Cyngor ystyried sut i estyn y perthnasoedd gweithio gan rannu data'n effeithiol o fewn y Cyngor a chyda sefydliadau partner perthnasol. | | | |

## Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff.

**Cryfderau:**

- Mae'r Cyngor yn datblygu rhai dulliau ymgysylltu dychmygus ac arloesol megis cynnal arolygon ymhlith y cyhoedd trwy gyswllt Wi-Fi am ddim ar fysiau; ac
- Mae'n dangos parodrwydd i addasu ac estyn dyluniad gwasanaethau i ymgorffori'r negeseuon a glywyd.

| Meysydd i'w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| • Parhau i gryfhau sianelau cyfathrebu dwyffordd i'r holl gymunedau i sicrhau bod eu barn ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu cael ei chlywed a goleuo gweithgareddau'r Cyngor a phartneriaid.<br>• Cofio cyfyngiadau ymgysylltiad presennol y Cyngor â'r cyhoedd a mynd ati'n barhaus i geisio diweddaru ei wybodaeth am farn y cyhoedd mewn ffordd gymesur i oleuo'r ddealltwriaeth am ymddygiad | **<u>Ymateb / Cryfderau Cyngor Dinas Casnewydd</u>**<br>Mae cynnwys yr holl randdeiliaid y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt o'r cysyniad ar gyfer ein gwaith, wrth ei ddatblygu ac wrth gael adborth yn faes sy'n her ac yn wobrwyol i'r Cyngor a'i bartneriaid. Rydym yn cydnabod nad proses unffordd yw cynnwys ac er mwyn iddo fod yn effeithiol, bod angen cynnwys y rhai y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt i gyflawni'r datrysiadau. Rydym yn cael ein calonogi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod ein gwahanol ddulliau o ennyn ymgysylltiad a chynnwys y cymunedau yn y broses benderfynu wrth hyrwyddo ein gwasanaethau.<br><br>Er mwyn adeiladu ar y diwrnodau gweithredu cymunedol presennol a mentrau eraill yn dilyn yr adolygiad rydym wedi cwblhau strwythur llywodraethu a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedau a sefydliadau partner i gydweithio'n agos ledled Casnewydd i ddatblygu a chyflawni camau gweithredu o'n cynllun gweithredu hirdymor. | | |

| Meysydd i'w Datblygu | Ymateb / Cam(au) Gweithredu Rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd | Gan Bwy? | Erbyn Pryd? |
|---|---|---|---|
| gwrthgymdeithasol mewn cymunedau. | **<u>Gweler Cam Gweithredu 1 – Datganiad Cenhadaeth a Chynllun Gweithredu</u>**<br><br>**<u>Gweler Cam Gweithredu 2 – Strwythur Llywodraethu Casnewydd Ddiogelach</u>**<br><br>**<u>Cam Gweithredu 6 – Gwella Sianelau Cyfathrebu</u>**<br>Byddwn yn amcanu at ddefnyddio dull mwy cydweithredol wrth gyfleu deilliannau cadarnhaol y gwaith y mae grŵp Casnewydd Ddiogelach a'i is-grwpiau'n ei gyflawni i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, i roi cymorth i gyflawni amcanion a chynnwys cymunedau a grwpiau. | Grŵp Casnewydd Ddiogelach | Yn barhaus |

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 1: Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

Mae’r tabl isod yn nodi ‘dangosyddion cadarnhaol’ ar gyfer pob un o’r pum ffordd o weithio yr ydym wedi’u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio’r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau ar ôl ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

| Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
| --- |
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae ‘hirdymor’ yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni’r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a’r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio’r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau’r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi’u nodi lle bydd deilliannau’n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae’r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i’r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy’n pontio’r cenedlaethau.<br>• Mae’r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi’r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae’r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy’n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy’n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol? |
| --- |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol? |
| --- |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru